

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Adroddiad 2020-2021

Bu Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn brysurach nag erioed, ac y mae'r cyfnod Covid wedi bod yn gyfle i'r Cyngor wasanaethu'r cyhoedd, ac i'r cyhoedd werthfawrogi gwaith y Cynghorwyr yn Llanuwchllyn. Rydym wedi gwneud llawn ddefnydd o'n trwydded Zoom dros y flwyddyn diwethaf!

Yn ddi-os penllanw'r gwaith oedd ail-agor y Cyfleusterau wedi eu huwchraddio i safon uchel iawn. Ar ôl cynilo ers llawer blwyddyn i wneud y gwaith hwn, daeth grant Covid 19 i'r fei a chaniatáu i ni fwrw ymlaen gyda'r gwaith yn ystod y cyfnodau clo.

Mae'n braf bod y Cyngor yn gallu cydweithio gydag eraill. Cyfrannodd y Cyngor at waith yr Ofalaeth Bro yn dosbarthu nwyddau a thua 70 cinio poeth o dafarn yr Eagles bob dydd yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Rhaid diolch yn fawr iawn i'r Parchedig Carwyn Siddall a'i lu o wirfoddolwyr ifanc am y gwasanaeth hynod werthfawr hwn.

Cyfrannodd gŵr bonheddig o'r ardal becynnau bwyd i'r henoed, a'r Cyngor wnaeth y trefniadau i rannu'r rhain. Fe wnaethpwyd hyn dwywaith - ar ddechrau Rhagfyr ac adeg y Nadolig.

Fe wnaeth y Cyngor eleni wneud trefniadau i ddathlu'r Nadolig ar y Stryd gan addurno'r pentref, a threfnu cystadleuaeth addurno ffenest. Yn anffodus, daeth cyfnod clo arall cyn i Siôn Corn allu ddod am dro i weld y plant ar y stryd ac yn y cymoedd, ond fe wnaeth Ysgol O M Edwards sicrhau fod y plant wedi derbyn anrhegion y Cyngor cyn i'r ysgol gau.

Llwyddwyd i gael grant bychan gan Barc Cenedlaethol Eryri i brynu teclynnau sy'n cadw lluniau a theclynnau recordio syml. Roedd hyn yn rhan o'n prosiect i leihau unigrwydd dros y gaeaf. Mae modd i drigolion hŷn sydd ddim yn defnyddio cyfrifiaduron i edrych dros hen luniau ac i recordio eu hatgofion – adnodd gwerthfawr iawn i haneswyr y dyfodol. Rydym wedi lawrlwytho lluniau teuluol, lluniau o dimau pêl-droed y gorffennol, cwmnïau drama, corau, hen luniau ysgol, sioeau y pentref a llu o ddigwyddiadau eraill. Teimlo roeddem y

byddai'r lluniau hyn yn ysgogi'r cof a rhoi testun siarad (dros y ffôn neu ar stepen y drws) i'r trigolion hynaf. Maent ar gael i chi o hyd.

Roeddem yn ymwybodol hefyd o'r angen i bobl ifanc allu barhau i ymgysylltu â'i gilydd yn ystod yr ail cyfnod clo. Y bobl ifanc oedd yn cario'r bwyd o'r dafarn i'r cartrefi yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ac roedd hyn yn gyfle iddynt gael sgwrs (o bell) ac i deimlo eu bod yn rhan bwysig o'r gymuned. Fe wnaethant fwynhau sgwrsio gyda'r trigolion hyn a dod i'w hadnabod wrth iddynt gludo'r bwyd at stepen y drws. Yn ystod y gaeaf fe wnaeth y Cyngor gyfrannu at waith yr Ofalaeth Bro unwaith eto a rhoi cyfle i'n pobl ifanc ffilmio Cyngerdd Nadolig. Y Cyngor a dalodd am y gwaith technegol ac fe ellir gweld y talentau lleol yn perfformio ar YouTube.

Mae cerdded llwybrau wedi cynyddu'n aruthrol yn ystod y cyfnod Covid ac mae wedi bod yn bleser cyd-weithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri i wella Llwybr y Cei – diolch am grant sylweddol i wneud hyn. Mae'r Warden Lleol yn bwriadau gwneud gwelliannau pellach i lwybrau lleol a sicrhawyd parhad i'r traddodiad o fynediad i Garth Bach, a diolchwn i'r teulu am gael wneud hyn.

Mae'r gwaith o gynnal y fynwent yn parhau ac mae cynlluniau i neilltuo ardal ar gyfer claddu llwch.

Cyd-weithiwyd gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru sydd wedi gosod nifer o focsys nythu ar gyfer gwenoliaid duon a thylluanod yn y gymuned. Braff oedd gweld plant yr ysgol yn cael y cyfle i fynd ar saffari i fynwent yr Eglwys i astudio'r llystyfiant a'r pryfetach yno o dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth.

Y gwaith allweddol sydd ar y gweill ar hyn o bryd yw llunio Cynllun Ardal. Cynullwyd y Panel mewn ymateb i'r newidiadau sylfaenol o ganlyniad i Covid, 10 - newidiadau sy'n effeithio ar

- Yr economi
- Diwylliant
- Y Gymuned

Mae pryder mawr ein bod yn colli gafael ar yr uchod, a chytunwyd fod angen i'r Panel edrych ar y materion uchod gan geisio cyd-weithio gyda Phartneriaid megis Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Gwnaethpwyd arolwg o dai yr ardal, lleoliadau gwaith trigolion a'r math o waith yr ymgwymerir ag ef, proffil oedran ac yn y blaen.

Mae bob amser fwrlwm a gweithgaredd yn Llanuwchllyn, ond mae wedi bod yn fwrlwm o fath gwahanol y flwyddyn ddiwethaf.

Diolch i bawb sy'n cyfrannu mewn unrhyw fodd i gynnal gwedd ein cymuned arbennig ni yma yn Llanuwchllyn.

Blwyddyn Ariannol 2020-21 (*Mae'r cyfrifon yn cynnwys grantiau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ond a wariwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-22)

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys

- Cyfrif Canolog
- Cyfrif wrth gefn
- Cyfrif y Cadeirydd
- Cyfrif y Fynwent

Gweddill a ddygwyd ymlaen o 1/4/2020	£27,392.46
Derbyniadau	<u>£43,405.89</u>
	<u>£70,798.35</u>
Taliadau	£18,965.48
Gweddill 31/3/2021	<u>£51,832.87</u>